# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw ar y 12fed o Fedi 2017 yn Neuadd Goffa Llwyncelyn am 7.30 yh

**Presennol:** Cynghorwyr Carys Morgan (Cadeirydd), Gerallt Davies, Barry Owen, Ruby Williams a Wyn Evans.

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Sirol Marc Davies a'r Clerc.

**Ymddiheuriadau:** Cynghorwyr Jocelyn Andrew, Garym Roberts, Eiddwen Merritt a Wyn Jones.

**Datgelu buddiannau:** Yn cael eu parchu.

**Cofnodion:** Darllenwyd cofnodion Mis Gorffennaf a'u cafwyd yn gywir.

**Codi o'r cofnodion:**

Yn dilyn y gŵyn a wnelwyd mis diwethaf ynglyn ag ansawdd gwael y bagiau newydd ailgylchu a'i cyflwynwyd gyda'r Cyngor Sir yn ddiweddar, danfonodd y Cyngor atebion i rai o'r cwestynau a dderbynwyd i amddiffyn y bagiau.

**Materion Cynllunio:**

Rhif Cais: A170696.
Tir cyfagos i Meirion, Llwyncelyn.
Codi annedd.
Dim gwrthwynebiad.
Rhif Cais: A170702.
Tir gyferbyn a Chapel Llwyncelyn (Cam 3)
Datblygiad preswyl.
Dim gwrthwynebiad.

**Clystyru:**

Derbyniwyd lythyr oddiwrth Llywodraeth Cymru yn ein gwahodd fel Cyngor Cymuned i wneud cais i glystyru gan fod cefnogaeth ariannol ar gael yn 2017-18. Penderfynwyd i beidio a'i ystyried.

**Llwybrau Hyrwyddedig:**

Darllenwyd lythyr o Gyngor Sir Ceredigion yn codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sy'n bodoli ar dramwy cyhoeddus i gael mynediad i gefn gwlad. Paswyd i'r clerc rannu y cyswllt â'r aelodau.

**Polisi Drafft Casgliadau Stryd:**

Soniodd y Cadeirydd am Bolisi Drafft Casgliadau Stryd a Chasgliadau Elusennol o Dŷ I Dŷ ac yn croesawi pawb i'w ddarllen.

**Cwrs Gofalwr e-Ddysgu:**

Gwahoddwyd aelodau i gwblhau'r cwrs e-ddysgu Cadw Gofalwyr mewn Cof i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf er mwyn cefnogi Gofalwyr yn ein cymuned.

**Ymgynghoriad Dosbarthu Ffilmiau**

Derbyniwyd wybodaeth am Bolisi Awdurdodi Ffilmiau fydd Cyngor Sir Ceredigion yn ei gyflwyno yn ei rôl fel corff Dosbarthu Ffilmiau. Gwahoddwyd yr aelodau i ddarllen y polisi ac hefyd ei annog i wneud adborth adeiladol.

**Unrhyw Fater Arall:**

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.25.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 10fed o Hydref.